# BWRDD IECHYD LLEOL
# RHONDDA CYNON TAF

## CYFRIFON BLYNYDDOL
## 2004/05

# Bwrdd Iechyd Lleol Rhondda Cynon Taf

## RHAGAIR

Paratowyd y cyfrifon hyn gan y Bwrdd Iechyd Lleol o dan adran 98(2) yn Neddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977 (fel y diwygiwyd) yn y dull y mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi'i drefnu, gyda chydsyniad y Trysorlys

## Y Cefndir Statudol

Roedd y Bwrdd Iechyd Lleol yn un o 22 fwrdd a ddaeth i fodolaeth ar 1 Ebrill 2003. Fel corff statudol a reolir gan Ddeddfau Seneddol mae'r BILl yn gyfrifol am y canlynol:

- Cytuno ar y gweithredu sy'n angenrheidiol ar gyfer gwella iechyd a gofal iechyd poblogaeth Bwrdd Iechyd Lleol Rhondda Cynon Taf.

- Cefnogi ac ariannu prynu gwasanaethau sy'n angenrheidiol i gwrdd â blaenoriaethau a gytunwyd, gan gynnwys safonau siartr a gwarantau gan feddygon teulu;

- Cefnogi ac ariannu'r galwedigaethau contract ;

- Comisiynu hybu iechyd, cynllunio ar gyfer argyfwng a thasgau rheoliadol eraill;

- Gwarchod adnoddau gan gynnwys rheolaeth ariannol ac arolygu perfformiadau mewn meysydd critigol;

- Ceisio ac ymateb i farnau'r bobl a sefydliadau lleol a newid a datblygu gwasanaethau ar gyflymdra ac mewn moddau a fydd yn dderbyniol.

## Rheoli Perfformiadau a Chanlyniadau Ariannol

O'r cychwyn, rhaid i Fyrddau Iechyd Lleol Cymru gydymffurfio'n llwyr â Llawlyfr Cyfrifon Adnoddau'r Trysorlys. O ganlyniad mae'r Cyfrif Incwm a Gwariant wedi'i ddisodli gan Ddatganiad Costau Gweithredu fel datganiad cychwynnol o'r gwariant yn ystod y flwyddyn. Dyroddir arian y Cynulliad adeg derbyn yn unionsyth i'r Gronfa Gyffredinol yn y Fantolen.

Cynhwyswyd y dyletswyddau statudol ar gyfer Byrddau Iechyd Lleol yn Neddf Diwygio GIG a Gofal Iechyd Pobl Broffesiynol 2002. Ni ddylai'r costau gweithredu net a dreulir gan Fyrddau Iechyd Lleol godi'n uwch na'r Cyfanswm Adnodd a ddyroddwyd.

Y mesur perfformiad cychwynnol ar gyfer Byrddau Iechyd Lleol yw nodyn 2.1 Cyrraedd Cydbwysedd Ariannol Gweithredol ar dudalen 12. Mae'r nodyn hwn yn cymharu costau gweithredu net a wariwyd yn erbyn y Cyfanswm Adnodd a ddyroddwyd gan y Cynulliad ac mae'n mesur a yw'r Cydbwysedd Ariannol Gweithredol wedi'i gyrraedd yn ystod y flwyddyn.

**DATGANIAD O GOSTAU GWEITHREDU AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU AR 31 MAWRTH 2005**

| | **Nodyn** | **2005 £000** | **2004 £000** |
|---|---|---|---|
| Gwariant | 4.1, 4.2, 4.3, 4.4 | 293,318 | 255,989 |
| Mân Incwm | 3.1 | 10,624 | 2,975 |
| **Costau gweithredu net** | | 282,694 | 253, 014 |

**DATGANIAD O ENILLION A CHOLLEDION A GYDNABUWYD AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU AR 31 MAWRTH 2005**

| | **2005 £000** | **2004 £000** |
|---|---|---|
| Gweddill na ddefnyddiwyd adeg ail-werthuso/mynegeio asedau sefydlog | 0 | 0 |
| Cynnydd/lleihad Net yn y Gronfa Gyffredinol yn sgil trosglwyddo asedau | 0 | 0 |
| Colledion amhariad ased sefydlog | 0 | 0 |
| **Ennill/(colled) a gydnabuwyd am y flwyddyn** | 0 | 0 |

Gwnaed addasiadau i'r ffigurau cymharol mewn perthynas â chyllido gan y Cynulliad i'r fantolen a'r gronfa gyffredinol mewn ffurf addasiad ar gyfer cyfnod blaenorol. Ni wnaed unrhyw addasiad ar gyfer cyfnod blaenorol mewn perthnyas â datganiad cost gweithredu, datganiad llif arian neu ddatganiad o Enillion neu Golledion a gydnabuwyd am y flwyddyn.

Ceir manylion llawn yr addasiadau wedi eu gosod allan ar Nodyn 8 Addasiad Cyfnod Blaenorol.

## MANTOLEN FEL AR 31 MAWRTH 2005

| | Nodyn | 2005 £000 | Ailddatganwyd 2004 £000 |
|---|---|---|---|
| **ASEDAU CYFREDOL** | | | |
| Dyledwyr | 5.1 | 8,467 | 1,269 |
| Arian parod yn y banc ac mewn llaw | | 161 | 0 |
| **Cyfanswm Asedau Cyfredol** | | 8,628 | 1,269 |
| Credydwyr: symiau'n ddyledus o fewn blwyddyn | 5.2 | 25,377 | 17,196 |
| **Asedau / (dyledion) Cyfredol Net** | | (16,749) | (15,927) |
| Credydwyr: symiau'n ddyledus ar ôl rhagor na blwyddyn | 5.3 | 0 | 1,577 |
| Darpariaethau ar gyfer dyledion a chodiannau | 5.4 | 875 | 300 |
| **CYFANSWM ASEDAU / (DYLEDION) NET** | | (17,624) | (17,804) |
| **ARIANNWYD GAN:** | | | |
| Cronfa Gyffredinol | 5.5 | (17,624) | (17,804) |

Llofnodwyd ar ran y Bwrdd

Cyfarwyddwr Cyllid ……………………………… Prif Weithredwr…………………………..……

Dyddiad …………………………………………… Dyddiad …………………………………….

Mabwysiadwyd gan y Bwrdd ar ………………………………….

## DATGANIAD LLIF ARIAN AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU AR 31 MAWRTH 2005

| | 2005<br>£000 | Ailddatganwyd<br>2004<br>£000 |
|---|---|---|
| Costau gweithredol Net | (282,694) | (253,014) |
| Addaswyd ar gyfer deliadau heb arian parod | (48) | 181 |
| Addaswyd ar gyfer symudiadau mewn cyfalaf gweithiol ar wahân i arian parod | (594) | 1,691 |
| Defnyddio darpariaethau | 0 | 0 |
| **Llif arian allanol Net o weithgareddau gweithredol** | (283,336) | (251,142) |
| | | |
| **GWARIANT CYFALAF A BUDDSODDIAD ARIANNOL:** | | |
| Taliadau i feddiannu asedau sefydlog cyffyrddadwy | 0 | 0 |
| Derbyniadau o werthu asedau sefydlog cyffyrddadwy | 0 | 0 |
| **Llif arian parod i mewn/(allan) Net o weithgareddau buddsoddi** | 0 | 0 |
| | | |
| **Llif arian parod i mewn/(allan) Net cyn ariannu** | (283,336) | (251,142) |
| | | |
| **CYLLIDO** | | |
| Ariannu gan gronfa’r Cynulliad Net (gan gynnwys cyfalaf) | 283,497 | 250,839 |
| **Llif arian parod i mewn/(allan) Net cyn ariannu** | 283,497 | 250,839 |
| | | |
| **Cynnydd / (lleihad) mewn arian parod** | 161 | (303) |

## Nodiadau i ddatganiad y llif arian

| **Addas ar gyfer symudiadau cyfalaf gweithiol ar wahân i arian parod** | **2005 £000** | **Ailddatganwyd 2004 £000** |
|---|---|---|
| (Cynnydd)/lleihad mewn dyledwyr | (7,198) | (713) |
| Cynnydd/(lleihad) mewn credydwyr | 6,604 | 2,404 |
| | (594) | 1,691 |

| **Addasiadau ar gyfer deliadau heb arian parod** | **2005 £000** | **Ailddatganwyd 2004 £000** |
|---|---|---|
| Darpariaethau heb arian parod | 575 | 300 |
| Llog codi ar Gyfalaf | (623) | (119) |
| | (48) | 181 |

| **Cysoni llif arian parod net a'r symud mewn dyled** | **£000** |
|---|---|
| Cynnydd/(lleihad) mewn arian parod yn ystod y cyfnod | 161 |
| Mewnlifiad arian parod i ddyled newydd | 0 |
| All-lifiad arian parod i ddyled a ad-dalwyd a thaliadau cyfalaf prydles ariannol | 0 |
| Newid mewn dyled net o ganlyniad i lif arian | 161 |
| Newid heb arian mewn dyled | 0 |
| **Dyled Net ar 1 Ebrill 2004** | 0 |
| **Dyled Net ar 31 Mawrth 2005** | 161 |

## Dadansoddiad o'r newidiadau mewn dyled net

| | **Fel ar 1 Ebrill 2004 £000** | **Llif arian £000** | **Newidiadau eraill £000** | **Fel ar 31 Mawrth 2005 £000** |
|---|---|---|---|---|
| Arian parod yn y banc ac mewn llaw | 0 | 161 | 0 | 161 |
| Gorddrafft Banc | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Dyledus o fewn blwyddyn | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Dyledus ar ôl blwyddyn | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | 0 | 161 | 0 | 161 |

## Nodiadau ar y Cyfrifon

### 1. Polisïau Cyfrifydda

**1.1** Mae'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi yn unol â Llawlyfr Cyfrifydda Adnoddau (RAM) a ddyroddwyd gan Drysorlys ei Mawrhydi hyd i'r graddau a gyfarwyddwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol fod yn briodol yn achos BILlau. Wrth ddilyn y ffordd dylid Cyfrifo Adnoddau, gweithredwyd y modd o drin dyledwyr a chredydwyr yn anghywir ar gyfer trafodion a wnaed yn 2003/4 ac ar gyfer balansau a hetifeddodd y BILl. Cyfeiriwyd at hyn ar gyfer 2004/05 a cywirwyd effaith y newid yma mewn polisi cyfrifo fel y gwelir yn Nodyn 8 o'r Addasiad Cyfnod Blaenorol. Disgrifir y polisïau cyfrifydda penodol a fabwysiadwyd gan y Bwrdd Iechyd Lleol (BILl) isod. Fe'u defnyddiwyd wrth ddelio ag eitemau a ystyriwyd yn berthnasol i'r cyfrifon.

Mae'r cyfrifon wedi'u paratoi o dan gonfensiwn cost hanesyddol, wedi'i gymhwyso drwy weithredu egwyddorion cost gyfredol i asedau sefydlog cyffyrddadwy, ac yn unol â'r cyfarwyddiadau a ddyroddwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru (y Cynulliad) a'u cymeradwyo gan y Trysorlys.

Nid yw'n ofynnol i'r BILlau gysoni rhwng cost gyfredol a chost hanesyddol gweddillion a diffygion.

**1.2 Incwm ac Ariannu**

Prif ffynhonnell ariannu'r BILl yw'r dyraniadau adnodd gan y Cynulliad o fewn terfynau arian a gymeradwywyd, a'u credydu i'r gronfa gyffredinol pan dderbynnir yr arian cysylltiedig. Mae'r incwm a ddatgelir yn Natganiad Costau Gweithredu yn adlewyrchu'n unig y symiau ar wahân i Arian oddi wrth y Cynulliad.

Yr incwm gweithredol yw'r incwm sy'n ymwneud yn uniongyrchol â gweithgareddau gweithredol y BILl. Yn bennaf mae'n cynnwys y ffioedd a'r codiannau ar gyfer gwasanaethau a roddwyd ar sail cost lawn i gwsmeriaid allanol, yn ogystal â gwaith ad-dalu cyhoeddus. Mae'n cynnwys incwm a gafwyd-mewn-cymorth i'r Bleidlais ac incwm i'r gronfa a grynhowyd y mae'r Trysorlys wedi cytuno y dylid ei drafod fel incwm gweithredol.

Cyfrifir yr incwm drwy gymhwyso confensiwn croniadau. Cydnabyddir yr incwm yn ystod y cyfnod y rhoddir y gwasanaethau.

**1.3 Trethiant**

Nid yw'r BILl yn gorfod talu treth gorfforaethol. Dangosir y gwariant net o'r Dreth Ar Werth sy'n anadfeddiannadwy. Codir Treth Ar Werth adfeddiannadwy o dan y pennawd gwariant mwyaf priodol neu fe'i cyfalafir os yw'n ymwneud ag ased.

**1.4 Asedau sefydlog anghyffyrddadwy**

Mae modd defnyddio asedau anghyffyrddadwy y gellir eu gwerthuso, am ragor na blwyddyn ac os ceir cost gymaint â £5,000 neu dros hynny.

Pennir gwerth asedau sefydlog anghyffyrddadwy a ddelir at ddefnydd gweithredol ar eu cost hanesyddol a'u dibrisio dros fywyd amcangyfrifedig yr ased ar sail llinell syth.

Adolygir gwerth cludo asedau anghyffyrddadwy ar gyfer amhariad ar ddiwedd y flwyddyn lawn gyntaf yn dilyn caffaeliad ac mewn cyfnodau eraill os bydd digwyddiadau neu newidiadau mewn amgylchiadau'n dangos y gallai'r gwerth cludadwy fod yn anadferadwy.

Cyfalafir trwyddedau meddalwedd cyfrifiadur fel asedau anghyffyrddadwy sefydlog lle treulir gwariant o £5,000 leiaf. Fe'u dilëir dros dymor eu trwydded neu eu bywyd economaidd defnyddiol, p'un bynnag fo'r byrraf.

Nid oedd gan Rhondda Cynon Taf unrhyw asedau sefydlog anghyffyrddadwy yn ystod 2004/05

## 1.5 Asedau sefydlog cyffyrddadwy

### A. Cyfalafiad

Cyfalafir **asedau cyffyrddadwy sefydlog** os oes modd eu defnyddio am gyfnod sy'n fwy na blwyddyn a'u bod:
- yn meddu ar gost unigol sy cymaint â £5,000 neu fwy; neu
- gyda'i gilydd yn meddu ar gost cymaint â £5,000 neu fwy, lle mae'r asedau'n gyd-ddibynnol o ran swyddogaeth, gyda dyddiadau prynu agos at ei gilydd ac y rhagwelwyd eu bod yn mynd i gael yr un dyddiadau gwaredu fwy neu lai; ac o dan un control rheoli; neu
- yn ffurfio rhan o'r gost wreiddiol o sefydlu adeilad newydd, heb ystyried eu costau fesul un neu gyda'i gilydd.

### B. Gwerthusiad

Datgenir asedau sefydlog cyffyrddadwy ar Gost Adnewyddu Dibrisiedig. Adeg eu cydnabod yn lle cyntaf fe'u mesurir ar gyfer costau (ar gyfer asedau prydles, gwerth teg) gan gynnwys unrhyw gostau fel gwaith gosod a briodolir yn uniongyrchol i'w hatgyweirio i gyflwr gweithiol. Fe'u hailddatgenir am y gwerth cyfredol bob blwyddyn. Adolygir gwerth cludo'r asedau sefydlog cyffyrddadwy o ran amhariad mewn cyfnodau os bydd digwyddiadau neu newidiadau mewn amgylchiadau'n dangos posibilrwydd na fydd y gwerth cludo'n adferadwy.

Nid oedd gan Rhondda Cynon Taf unrhyw asedau sefydlog cyffyrddadwy yn ystod 2004/05

## 1.6 Asedau a Roddir

Cyfalafir asedau sefydlog cyffyrddadwy wrth eu gwerthuso adeg eu derbyn ac fe'u gwerthusir a'u dibrisio fel a ddisgrifir uchod ar gyfer asedau a brynwyd.

Mae gwerth asedau sefydlog cyffyrddadwy a roddir a'r elfen o asedau a roddwyd yn rhannol yn cael eu hadlewyrchu mewn cronfa ased a gedwir wrth gefn. Credydir y gronfa hon â gwerth y rhodd wreiddiol ac unrhyw ail-werthuso a mynegeio; rhyddheir swm cyfwerth â chodiant y dibrisiad o'r gronfa hon bob blwyddyn i Ddatganiad y Gost Weithredu.

Nid oedd gan Rhondda Cynon Taf unrhyw asedau a roddwyd yn ystod 2004/05

## 1.7 Ymchwil a Datblygiad

Codir ymchwil a datblygiad yn Natganiad y Gost Weithredu yn y flwyddyn y caiff ei wario, ac eithrio i'r graddau y bydd yn ymwneud â phroject a ddiffinnir yn eglur ac y gellir rhagdybied yn rhesymol y ceir buddion ohono. Cyfyngir gwariant yn y modd hwn i werth y buddion a ragddisgwylir yn y dyfodol ac fe'i dilëir drwy Ddatganiad y Gost Weithredu ar sail drefnus dros y cyfnod y rhagddisgwylir iddo elwa o'r project.

## 1.8 Costau Pensiwn

Cynhwysir cyflogedigion y gorffennol a'r presennol gan ddarpariaethau Cynllun Pensiwn y GIG. Mae'r Cynllun yn gynllun budd-daliadau diffinedig, heb ei ariannu, sy'n cynnwys cyflogedigion y GIG, Meddygaethau Cyffredinol a chyrff eraill, a ganiateir o dan gyfarwyddyd yr Ysgrifennydd Gwladol. O ganlyniad nid oes modd i'r BILl nodi ei ran o asedau a dyledion sylfaenol y cynllun. Gan hynny, cyfrifir fod y cynllun yn gynllun cyfrannu diffinedig ac mae cost y cynllun yn hafal i'r cyfraniadau sy'n daladwy i'r cynllun ar gyfer y cyfnod cyfrifydda. Cyfanswm cyfraniad y cyflogwr oedd yn daladwy yn ystod 2004/05 oedd: £297,832, ac yn 2003-04 y swm oedd £72,287.

Swm dros ben enwol y cynllun yw £1.1 biliwn yn ôl gwerthusiad diweddaraf y cynllun gan yr Actwari Llywodraethol am y cyfnod 1 Ebrill 1994 hyd 31 Mawrth 1999. Casgliad y gwerthusiad oedd fod y cynllun yn parhau i weithredu ar sail ariannol ddiogel. Argymhellwyd bod cyfraniadau'r cyflogwyr yn aros ar 7% o gyflogau pensiynadwy tan 31 Mawrth 2003 a'u cynyddu wedyn i 14% o gyflogau pensiynadwy yn effeithiol o 1 Ebrill 2003. Gall cyflogedigion dalu cyfraniadau o 6% (gweithwyr llaw 5%) o'u cyfogau pensiynadwy.

Mae'r Cynllun yn ddibynnol ar werthusiad llawn bob pedair blynedd. Cynhaliwyd y gwerthusiad diweddaraf fel ar 31 Mawrth 2003. Rhwng gwerthusiadau bydd yr Actwari Llywodraethol yn rhoi diweddariad o ddyledion y cynllun yn flynyddol. Cynhwysir yr asesiad diweddaraf o ddyledion y Cynllun yn Adroddiad Actwari'r Cynllun sy'n ffurfio rhan o Gyfrif Adnodd Cynllun Pensiwn y GIG (Cymru a Lloegr) blynyddol, a gyhoeddir bob mis Hydref. Gellir gweld y cyfrifon hyn ar wefan Asiantaeth Pensiynau'r GIG ar www.nhspa.gov.uk. Gellir cael copïau hefyd o Lyfrfa'i Mawrhydi.

Mae'r cynllun yn gynllun "cyflog terfynol". Gan amlaf fe seilir pensiynau blynyddol ar 1/80 o'r cyflog pensiynadwy gorau'r tair blynedd olaf ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth. Mae swm cnepyn sydd fel arfer yn hafal i dair blynedd o bensiwn yn daladwy adeg ymddeoliad. Ychwanegir codiadau blynyddol i'r taliadau pensiwn ar gyfraddau a ddiffinnir gan Ddeddf Pensiynau (Codiadau) 1971, ac fe'u seilir ar newidiadau mewn prisoedd manwerthu yn ystod y deuddeg mis yn diweddu ar 30 Medi yn y flwyddyn galendr flaenorol. Ar adeg marwolaeth, mae pensiwn o 50% o bensiwn yr aelod yn daladwy fel arfer i'r gwr neu'r wraig weddw.

Mae taliadau pensiwn cynnar gydag ychwanegiad, ar gael i aelodau o'r Cynllun sy'n barhaol analluog i wneud eu dyletswyddau yn effeithiol oherwydd afiechyd neu lesgedd. Mae taliad marwolaeth ddwywaith maint cyflog pensiynadwy'r flwyddyn olaf oherwydd marw yn ystod gwasanaeth, a hyd at bum gwaith eu pensiwn blynyddol oherwydd marwolaeth ar ôl ymddeol.

Mae'r Cynllun yn rhoi'r cyfle i aelodau gynyddu eu budd-daliadau drwy bryniadau arian, sef, Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol a ddarparwyd gan banel cymeradwy o gwmnïau yswiriant bywyd. O dan y trefniadau gall y BILl wneud cyfraniadau i helaethu budd-daliadau pensiwn cyflogedigion. Mae'r budd-daliadau a fo'n daladwy yn gysylltiedig yn uniongyrchol â gwerth y buddsoddiadau a wnaed.

Nid yw dyledion pensiwn ychwanegol a fo'n deillio o ymddeol yn gynnar yn cael eu hariannu gan y cynllun, ac eithrio pan fydd yr ymddeoliad yn sgil iechyd gwael. O ran ymddeoliadau cynnar na ariannwyd dan y cynllun, fe godir swm llawn o'r atebolrwydd ar gyfer costau ychwanegol i'r Datganiad o Gost Gweithredu ar yr adeg y bydd y BILl yn ymrwymo i'r ymddeoliad, heb ystyried y dull o dalu.

Roedd FRS17 wedi'i fabwysiadu'n llwyr oddi ar 2003/04.

Hyd at 31 Mawrth 2002, ailgodwyd y dyledion ychwanegol a ddeilliodd o ymddeoliadau cynnar na ariannwyd gan y cynllun, a ddigwyddodd cyn 6 Mawrth 1995, ar yr Awdurdod Iechyd a'u cynnwys o fewn treuliau gweithredol wrth i'r rheini godi. O ran ymddeoliadau cynnar ar ôl 5 Mawrth 1995 codir ymddeoliadau cynnar na ariannwyd gan y cynllun, cyfanswm yr atebolrwydd am y costau ychwanegol ar y Datganiad o Gost Gweithredu ar yr adeg y bydd y BILl yn ymrwymo i'r ymddeoliad, heb ystyried y dull o dalu.

### 1.9 Arian tramor

Trosir trafodion mewn arian tramor i bunnoedd ar y cyfraddau cyfnewid ar ddyddiadau'r trosglwyddiadau. Dygir enillion neu golledion a fo'n deillio yn sgil y cyfnewid i'r Datganiad o Gost Gweithredu.

### 1.10 Cost Cyfalaf

Mae cost cyfalaf yn berthynol i holl asedau a dyledion y BILl, llai'r balansau arian parod a ddelid yn yr OPG ac asedau a roddwyd. Y gyfradd log a gymhwyswyd i godiannau cyfalaf yn y flwyddyn ariannol 2004/05 oedd 3.5%.

### 1.11 Darpariaethau

Mae'r BILl yn darparu ar gyfer ymrwymiadau cyfreithiol neu adeiladol sy'n ansicr o ran amser neu'r swm ar ddyddiad dyladwy'r fantolen, ar sail amcancyfrif gorau'r gwariant a fo'n angenrheidiol i dalu'r ymrwymiad. Lle bydd effaith gwerth amser yr arian yn arwyddocaol, discowntir y llifeiriannau arian a addaswyd yn erbyn risg drwy ddefnyddio cyfradd ddisgownt y Trysorlys o 3.5% mewn termau real.

### 1.12 Adnoddau Parod

Trinnir adneuon a buddsoddiadau eraill y gellir eu trosi'n rhwydd i symiau hysbys o arian parod neu'n agos at eu symiau cludo fel adnoddau arian parod yn y datganiadau llif arian. Nid yw'r BILl yn dal unrhyw fuddsoddiadau â dyddiadau aeddfedu dros flwyddyn oddi ar eu prynu.

### 1.13 Prydlesoedd

Lle bydd y BILl yn dwyn holl risgiau a buddion perchnogaeth ased a brydleswyd i raddau helaeth, cofnodir yr ased fel ased sefydlog cyffyrddadwy a chofnodir dyled i'r

lleiaf o'r taliadau prydles lleiafswm a ddisgowntir gan y gyfradd log sy'n ymhlyg yn y brydles. Codir elfen log y taliad prydles ariannol ar yr OCS dros gyfnod y brydles ar gyfradd gyson mewn perthynas â'r gweddill sy'n dal heb ei dalu. Ystyrir fod prydlesoedd eraill yn frawdlysoedd gweithredol a chodir y rhentiadau ar yr OCS ar sail llinell syth.

## 1.14 Incwm a ohiriwyd

Mae incwm a dderbyniwyd o'r Cynulliad Cenedlaethol wedi'i ddwyn ymlaen o awdurdodau iechyd i'r BILI yn unol â WHC 2003 (115). Ni chaniateir dyraniadau gohiriedig yn ystod blwyddyn oni bai fod yr arian wedi'i dderbyn o gyrff anllywodraethol.

## 2.1 Gweddill Ariannol Gweithredol a Gyrhaeddwyd

| | 2005<br>£000 | 2004<br>£000 |
|---|---|---|
| Costau gweithredol net am y flwyddyn ariannol | 282,694 | 253,014 |
| Gwariant diddisgresiwn | 8,814 | 21,605 |
| Costau gweithredol llai gwariant diddisgresiwn | 273,880 | 231,409 |
| Cyfyngiad Adnodd Refeniw | 273,929 | 231,442 |
| **Gor/(tan) wario yn erbyn Cyfyngiad Adnodd Refeniw** | 49 | 33 |
| Broceriaeth adnodd heb ei gynllunio a dderbyniwyd | 0 | 0 |
| **Gweddill ariannol Gweithredol** | 49 | 33 |

## 3.1 Incwm Amrywiol

| | 2005<br>£000 | 2004<br>£000 |
|---|---|---|
| Incwm o godi rhagnodau( presgripsiynau) | 1,701 | 1,801 |
| Arall | 8,923 | 1,174 |
| **Cyfanswm** | 10,624 | 2,975 |

## 4.1 Gofal Iechyd Cychwynnol

| | Arian a gyfyngwyd<br>£000 | Arian heb gyfyngiad<br>£000 | 2005 Cyfanswm<br>£000 | 2004 Cyfanswm<br>£000 |
|---|---|---|---|---|
| Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol | 28,818 | 0 | 28,818 | 21,827 |
| Gwasanaethau Fferyllol | | 6,530 | 6,530 | 4,350 |
| Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol | 117 | 109 | 226 | 347 |
| Gwasanaethau Ophthalmig Cyffredinol | 75 | 1,915 | 1,990 | 1,872 |
| Gwariant gofal cychwynnol arall | 891 | 0 | 891 | 1,228 |
| Cyffuriau ac offer a ragnodwyd | 42,017 | | 42,017 | 39,612 |
| **Cyfanswm** | 71,918 | 8,554 | 80,472 | 69,236 |

## 4.2 Gofal Eilaidd ac Iechyd Cymunedol

| | 2005 £000 | 2004 £000 |
|---|---|---|
| Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro | 9,450 | 8,599 |
| Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Morgannwg | 43,353 | 40,157 |
| Ymddiriedolaeth GIG Pontypridd & Rhondda | 128,565 | 117,043 |
| Ymddiriedolaeth GIG y Felindre | 3,190 | 2,784 |
| Ymddiriedolaeth GIG Gofal Iechyd Gwent | 511 | 455 |
| Ymddiriedolaeth GIG Abertawe | 314 | 349 |
| Ymddiriedolaeth GIG Bro Morgannwg | 4,053 | 3,783 |
| Ymddiriedolaeth GIG Sir Gaerfyrddin | 119 | 105 |
| Ymddiriedolaeth GIG Penfro a Derwen | 62 | 60 |
| Ymddiriedolaeth GIG Ceredigion | 29 | 28 |
| Ymddiriedolaethau GIG Cymreig eraill | 26 | 31 |
| Ymddiriedolaethau GIG eraill heb fod yn Gymreig | 244 | 236 |
| Awdurdodau Lleol | 78 | 139 |
| Cyrff gwirfoddol | 1,114 | 983 |
| Gofal Nyrsio a ariannwyd gan y GIG | 2,724 | 528 |
| Gofal Parhaol | 6,195 | 5,066 |
| Darparwyr preifat | 135 | 181 |
| Projectau penodol a ariannwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru | 6,916 | 37 |
| Arall | 108 | 345 |
| **Cyfanswm** | 207,186 | 180,909 |

Yn gynwysedig o fewn gwariant "Gofal Nyrsio a ariannwyd gan y GIG" mae £2.565m a dalwyd i Awdurdodau Lleol.

Yn gynwysedig o fewn gwariant "Gofal Parhaol" mae £339,026 a dalwyd i Ymddiriedolaeth Pontypridd & Rhondda, a £855,474 a dalwyd i Awdurdodau Lleol.

Nid yw'r gwariant o fewn yr Awdurdod Lleol yn cynnwys taliadau o dan adran 28a yn Neddf GIG 1977 nac adran 31 yn Neddf Iechyd 1999.

Yn gynwysedig o fewn Projectau Penodol a ariannwyd gan Lywodraeth y Cynulliad mae costau gofal iechyd Tîm Comisiynu'r Ail Gynnig – gweler Nodyn 7 am ddadansoddiad manwl.

## 4.3 Gwariant Rhaglen Arall

| | 2005 £000 | 2004 £000 |
|---|---|---|
| Cyflogau | 899 | 383 |
| Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Gwladol | 1,359 | 1,203 |
| Colledion, taliadau neilltuol a dyledion anadferadwy | 260 | 1,075 |
| Ymchwil a datblygu | 0 | 0 |
| Arall | 445 | 363 |
| **Cyfanswm** | 2,963 | 3,024 |

### 4.4 Gwariant Gweinyddu

| | 2005 £000 | 2004 £000 |
|---|---|---|
| Cydnabyddiaeth aelodau heb fod yn swyddogion | 104 | 87 |
| Cyflogau eraill | 870 | 810 |
| Treuliau sefydliad | 147 | 171 |
| Adeiladau a gweithfeydd sefydlog | 412 | 154 |
| Contractwyr allanol | 13 | 12 |
| Cydnabyddiaeth i'r Archwilwyr – ffi awdit | 83 | 103 |
| Cydnabyddiaeth i'r Archwilwyr - ffioedd eraill | 0 | 0 |
| Ailgodiant Canolfan Gwasanaethau Busnes | 1,667 | 1,597 |
| Llog a godir ar gyfalaf | (623) | (119) |
| Arall | 24 | 5 |
| **Cyfanswm** | 2,697 | 2,820 |

### 4.5 Colledion, taliadau neilltuol a dyledion anadferadwy: Codiannau ar dreuliau gweithredol

| | 2005 £000 | 2004 £000 |
|---|---|---|
| Esgeulustod clinigol | 0 | 0 |
| Niwed Personol | 0 | 0 |
| Pob colled arall a thaliadau neilltuol (Nodyn 6.4) | 260 | 274 |
| Ffïoedd cyfreithiol amddiffyn a chostau gweinyddol eraill | 0 | 0 |
| Cynnydd/lleihad crynswth mewn darpariaeth ar gyfer taliadau'r dyfodol | 260 | 274 |
| Cyfraniadau i bremiymau yswiriant/Pwll Risg Cymreig | 0 | 801 |
| Dyledion anadferadwy | 0 | 0 |
| **Cyfanswm Codiannau** | 260 | 1,075 |

Mae'r niwed personol yn cynnwys £nil parthed budd-daliadau niwed parhaol.

### 4.6 Hurio a rhentu prydlesoedd gweithredol

| | 2005 £000 | 2004 £000 |
|---|---|---|
| Hurio gweithfeydd a pheiriannau | 0 | 0 |
| Prydlesoedd gweithredol eraill | 93 | 87 |
| **Cyfanswm** | 93 | 87 |

**Ymrwymiadau dan brydlesoedd gweithredol annileadwy:**

| | Tir ac Adeiladau £000 | Prydlesoedd Eraill £000 |
|---|---|---|
| **Prydlesoedd gweithredol syn darfod:** | | |
| O fewn blwyddyn | 27 | 0 |
| Rhwng 1 a 5 mlynedd | 121 | 0 |
| Ar ôl 5 mlynedd | 0 | 0 |

## 4.7 Costau Cyfarwyddwyr a Staff Gweithredol

| | 2005<br>£000 | 2004<br>£000 |
|---|---|---|
| Cyflogau | 2,248 | 1,063 |
| Costau Budd Cymdeithasol | 181 | 87 |
| Cyfraniadau cyflogwr i NHSPA | 298 | 71 |
| Costau pensiwn eraill | 0 | 0 |
| Staff asiantaeth/secondiwyd | 68 | 59 |
| **Cyfanswm** | 2,795 | 1,280 |

Yn ogystal â'r datganiad yn nodiadau 4.3 a 4.4 ynglŷn â chostau cyflogau, mae £1.026m o gyflogau cyflogedigion gofal cychwynnol y BILl wedi ei gynnwys yn nodyn 4.1.

## 4.8 Cydnabyddiaeth Cyfarwyddwyr y Bwrdd

| | 2005<br>£000 | 2004<br>£000 |
|---|---|---|
| Cydnabyddiaeth aelodau heb fod yn swyddogion | 100 | 79 |
| Cydnabyddiaeth Cyfarwyddwyr Gweithredol: | | |
| Cyflogau sylfaenol | 366 | 232 |
| Budd-daliadau | 0 | 0 |
| Bonysau ar sail Perfformiad | 0 | 0 |
| Cyfraniadau Pensiwn | 51 | 16 |
| Iawndal am golli swydd | 0 | 0 |
| Pensiynau i gyn-gyfarwyddwyr (ymddeoliadau cynnar) | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | 517 | 327 |

| | Cadeirydd<br>£000 | Prif Weithredwr<br>£000 |
|---|---|---|
| Cyflog sylfaenol | 30 | 79 |
| Budd-daliadau | 0 | 0 |
| Iawndal am golli swydd | 0 | 0 |
| Bonysau ar sail Perfformiad | 0 | 0 |
| Cyfraniadau Pensiwn | 4 | 11 |
| **Cyfanswm** | 34 | 90 |

**Cydnabyddiaethau a hepgorwyd gan gyfarwyddwyr a lwfansau a dalwyd yn eu lle:**

| | Nifer | £000 |
|---|---|---|
| Cydnabyddiaeth Cyfarwyddwyr a hepgorwyd | 0 | 0 |
| Lwfansau a dalwyd yn lle cydnabyddiaethau | 0 | 0 |

**Y sail ar gyfer cyfrif bonysau ar sail perfformiad yw:**

Ni thalwyd bonysau ar sail perfformiad yn ystod y flwyddyn.

## 4.9 Nifer y cyflogedigion ar gyfartaledd

**Nifer cyfartalog y cyflogedigion yn ystod y flwyddyn oedd:**

| | Staff Parhaol | Staff asiantaeth, dros dro ac ar gontract | Staff ar secondiad mewnol | Cyfanswm 2005 | Cyfanswm 2004 |
|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | Nifer | Nifer | Nifer | Nifer |
| Cyfarwyddwyr Gweithredol a Chysylltiol y Bwrdd | 6 | 0 | 0 | 6 | 5 |
| Staff arall y Bwrdd Iechyd Lleol | 61 | 0 | 0 | 61 | 29 |
| Staff a ailswyddwyd | 0 | 0 | 2 | 2 | 3 |
| **Cyfanswm** | 67 | 0 | 2 | 69 | 37 |

Cyfrifir nifer cyfartalog y cyflogedigion fel cyfanswm y nifer o gyflogedigion o dan gontract gwasanaeth ym mhob wythnos yn y flwyddyn ariannol wedi'i rannu gan y nifer o wythnosau yn y flwyddyn ariannol.

**Gwariant ar fudd-daliadau Staff**

| **Natur y gwariant:** | **£000** |
|---|---|
| **a.** | 0 |
| **b.** | 0 |
| **c.** | 0 |
| **d.** | 0 |
| **Cyfanswm** | 0 |

## 4.10 Cyflogau a hawliau pensiwn rheolwyr uwch

| Enw a Theitl | 2004/05 Cyflog band £5k £000 | 2004/05 Cydnabyddiaeth arall band £5k £000 | 2004/05 Buddion eraill £000 | 2003/04 Cyflog band £5k £000 | 2003/04 Cydnabyddiaeth arall band £5k £000 | 2003/04 Buddion eraill £000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfarwyddwyr Gweithredol a Chysylltiol:** | | | | | | |
| Mr Mel Evans (nodyn 1) Prif Weithredwr | 75>80 | 0 | 0 | 60>65 | 0 | 0 |
| Mr Mark Thomas Cyfarwyddwr Cyllid | 60>65 | 0 | 0 | 60>65 | 0 | 0 |
| Dr Anne Evans (nodyn 3) Cyfarwyddwr Meddygol | 50>55 | 0 | 0 | 30>35 | 0 | 0 |
| Mrs Lynda Williams (nodyn 2) Cyfarwyddwr Nyrsio | 20>25 | 0 | 0 | 20>25 | 0 | 0 |
| | | | | | | |
| Dr Paul Tromans (nodyn 4) Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Alison Lagier Dirprwy Brif Weithredwr | 50>55 | 0 | 0 | 50>55 | 0 | 0 |
| Pennaeth Cynllunio & Phartneriaethau | * | * | * | * | * | * |
| Pennaeth Gofal Cychwynnol | * | * | * | * | * | * |
| | | | | | | |
| **Aelodau heb swydd** | | | | | | |
| Dr Christopher DV Jones Cadeirydd | 30>35 | 0 | 0 | 25>30 | 0 | 0 |
| Dr Hasmukh V Shah Meddyg Teulu | 5>10 | 0 | 0 | 5>10 | 0 | 0 |
| Meddyg Teulu | * | * | * | * | * | * |
| Mr Alan Griffiths Aelod Deintyddol | 5>10 | 0 | 0 | 5>10 | 0 | 0 |
| Dr Robert Baron Meddyg Teulu | 5>10 | 0 | 0 | 5>10 | 0 | 0 |
| Mr Selwyn Jones Optometrydd | 5>10 | 0 | 0 | 5>10 | 0 | 0 |
| Mr Alan Crabbe Fferyllydd | 5>10 | 0 | 0 | 5>10 | 0 | 0 |
| Ms Anne Higgins Sector Gwirfoddol | 5>10 | 0 | 0 | 5>10 | 0 | 0 |
| Ms Sylvia Jones Gofalydd | 5>10 | 0 | 0 | 5>10 | 0 | 0 |
| Ms Antonia Forte (nodyn 5) Sector Gwirfoddol | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Ms Lynette Ward Therapydd | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Mrs Karen Snelling (nodyn 5) Nyrs | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Mrs Jacqueline Murphy Aelod Lleyg Cymunedol (nodyn 6) | 0 > 5 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyng. Jonathan Huish Awdurdod Lleol | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyngh Pauline Jarman Awdurdod Lleol | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyngh Rebecca Winter (nodyn 7)Awdurdod Lleol | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyngh John David (nodyn 8) Awdurdod Lleol | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Awdurdod Lleol (nodyn 9) | * | * | * | * | * | * |
| Awdurdod Lleol (nodyn 10) | * | * | * | * | * | * |
| | | | | | | |
| **Aelodau cysylltiol** | | | | | | |
| Mr Clive Barnby | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Mr Robert Williams | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Mr Paul Gage | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Dr Shona Sullivan | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |

1. Secondiwyd Mr Mel Evans i BILl Bro Morgannwg rhwng 22 Medi 2003 a 5 Mawrth 2004 am ddeuddydd yr wythnos. Mae'r gyflog gymharol a ddatgelwyd uchod net o'r swm a ailgodwyd ar BILl Bro Morgannwg, am y cyfnod sef, £14,910.
2. Roedd Mrs Lynda Williams yn dal swydd ar y cyd â Byrddau Iechyd Lleol (BILlau) Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf. Dim ond 50% o'i chydnabyddiaeth a delid gan BILl Rhondda Cynon Taf.
3. Bu Dr Anne Evans yn dal swydd ar y cyd â BILlau Merthyr Tydfil and Rhondda Cynon Taf tan 5 Rhagfyr 2004. Yn ystod y cyfnod hwn dim ond 50% o'i chydnabyddiaeth a delid gan BILl Rhondda Cynon Tad. O 6 Rhagfyr 2004 mae Dr Anne Evans wedi dal swydd amser-llawn o fewn BILl Rhondda Cynon Taf.
4. Bu Dr Paul Tromans yn dal swydd Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd tan fis Medi. Cafodd ei gyflogi gan y Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Gwladol, rhan o Ymddiriedolaeth GIG Y Felindre. Ni dderbyniodd unrhyw gydnabyddiaeth yn uniongyrchol oddi wrth y BILl.
5. Ni fydd Ms Antonia Forte a Mrs Karen Snelling yn derbyn taliadau honorariwm. Talwyd £5,620 a £1,946 i'w cyflogwyr ar gyfer amser a dreuliwyd ar ddyletswyddau BILl Rhondda Cynon Taf.
6. Penodwyd Mrs Jacqueline Murphy yn aelod lleyg Cymunedol i'r Bwrdd ym mis Mai 2004.
7. Nid oedd y Cynghorydd Rebecca Winter â hawl i aros yn aelod 'r Bwrdd ar ôl etholiadau'r Cyngor Lleol fis Mai 2004 ac fe ymadawodd ar unwaith.
8. Penodwyd y Cynghorydd John David yn aelod o'r Bwrdd yng Ngorffennaf 2004.
9. Peidiodd yr aelod Llywodraeth Leol hwn â bod yn aelod o'r Bwrdd fis Hydref 2004.
10. Penodwyd aelod Llywodraeth Leol yn ei le fel aelod o'r bwrdd fis Hydref 2004.

* Gwrthodwyd caniatâd i ddatgelu yn unol â Deddf Gwarchod Data 1998 (*).

## 4.10 Hawliau Cyflog a phensiwn rheolwyr uwch, parhad:

| Budd-daliadau Pensiwn<br><br>Enw a Theitl | Gwir gynnydd mewn pensiwn a swm perthnasol yn 60 oed<br>Bandiau £2.5k<br>£000 | Cyfanswm pensiwn a swm perthnasol a grynhowyd yn 60 oed ar 31 Maw 2005, bandiau £5k<br>£000 | Arian parod cyfatebol i werth trosglwyddo ar 31 Maw 2005<br>Bandiau £5k<br>£000 | Arian parod cyfatebol i werth trosglwyddo ar 31 Mar 2004<br>£000 | Gwir gynnydd mewn Arian parod cyfatebol i werth trosglwyddo ar<br>£000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfarwyddwyr Gweithredol a Chysylltiol** | | | | | |
| Mr Mel Evans<br>Prif Weithredwr | 2.5>5 | 105>110 | 398 | 362 | 36 |
| Mr Mark Thomas<br>Cyfarwyddwr Cyllid | 2.5 > 5 | 5 > 10 | 20 | 10 | 10 |
| Dr Anne Evans<br>Cyfarwyddwr Meddygol | 5 > 10 | 40 > 45 | 176 | 141 | 31 |
| Mrs Lynda Williams<br>Nyrs-Gyfarwyddwr | 0 > 2.5 | 65 > 70 | 205 | 186 | 19 |
| | | | | | |
| Alison Lagier<br>Dirprwy Brif Weithredwr | 2.5 > 5 | 45 > 50 | 137 | 120 | 16 |
| Pennaeth Cynllunio a Phartneriaethau | * | * | * | * | * |
| Pennaeth Gofal Cychwynnol | * | * | * | * | * |

Arian parod cyfatebol i werth trosglwyddo yw gwerth cyfalafol y budd-daliadau cynllun pensiwn a aseswyd gan actwari ac a grynhowyd gan aelod ar unrhyw adeg. Y budd-daliadau a werthuswyd yw budd-daliadau'r aelod a grynhowyd ac unrhyw bensiwn i briod sy'n gysylltiedig ac yn daladwy o'r cynllun. Gwneir taliad Gwerth Cyfalafol (CETV) gan gynllun pensiwn, neu ceir trefniant i sicrhau budd-daliadau pensiwn mewn cynllun pensiwn arall neu drefniant pan fydd aelod yn ymadael â chynllun ac yn dewis trosglwyddo'r budd-daliadau a grynhowyd yn ei gynllun gwreiddiol. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn ymwneud â'r budd-daliadau y bydd yr unigolyn wedi'u crynhoi o ganlyniad i'w aelodaeth gyfan o'r cynllun pensiwn, nid ei wasanaeth fel uwch swyddog yn unig y mae'r datgeliad yn ymwneud ag ef. Mae ffigurau'r Gwerth Cyfalafol, ac o 2004/05 ymlaen y manylion pensiwn eraill, yn cynnwys gwerth unrhyw fudd-daliadau pensiwn mewn cynllun arall neu drefniant y mae'r unigolyn wedi'u drosglwyddo i gynllun pensiwn y GIG. Cynhwysir hefyd unrhyw fudd-dal pensiwn ychwanegol a grynhowyd i'r aelod o ganlyniad i brynu blynyddoedd ychwanegol o wasanaeth pensiwn yn y cynllun ar ei

gost ei hun. Cyfrifir Gwerth Cyfalafol o fewn y cyfarwyddyd a'r fframwaith a ragnodwyd gan Sefydliad a Ffacwlti Actwariaid.

Mae gwir gynnydd yn y Gwerth Cyfalafol yn adlewyrchu'r cynnydd mewn Gwerth Cyfalafol a ariannwyd yn effeithiol gan y cyflogwr. Mae'n ystyried y cynnydd mewn pensiwn a grynhowyd oherwydd chwyddiant, cyfraniadau a dalwyd gan y cyflogedig (gan gynnwys gwerth unrhyw fudd-daliadau a drosglwyddwyd o gynllun pensiwn neu drefniant arall) ac yn defnyddio ffactorau gwerthuso cyffredin ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

### 4.11 Ymddeoliadau oherwydd afiechyd

Yn ystod 2004/05 ni chafwyd ymddeoliadau cynnar ymhlith cyflogedigion y BILl ar dir afiechyd.

### 4.12 Polisi Taliadau'r Sector Cyhoeddus– Mesur o Gydymffurfio

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru'n disgwyl i'r BILlau dalu credydwyr sy tu allan i'r GIG yn unol â chod taliadau prydlon Conffederasiwn Busnesau Prydain [CBI] a rheolau Cyfrifydda'r Llywodraeth. Y nod yw talu pob credydwr masnach o fewn 30 dydd ar ôl derbyn nwyddau neu anfoneb ddilys (p'un bynnag yw'r diweddaraf) oni bai bod telerau talu eraill wedi'u cytuno gyda'r cyflenwr.

| | **2005** | **2005** | **2004** |
|---|---:|---:|---:|
| **Nid yn y GIG** | **Nifer** | **£000** | **£000** |
| Cyfanswm biliau a dalwyd 2004/05 | 2,380 | 11,800 | 6,108 |
| Cyfanswm biliau a dalwyd o fewn y targed | 2,378 | 11,791 | 6,102 |
| Canran y biliau a dalwyd o fewn y targed | 99.9% | 99.9% | 99.9% |

Yn ogystal, mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru'n disgwyl i'r BILlau dalu cyrff eraill y GIG yn unol â rheolau Cyfrifydda'r Llywodraeth. Y nod yw talu pob corff arall yn y GIG o fewn 30 dydd ar ôl derbyn nwyddau neu anfoneb ddilys gan yr awdurdod (p'un bynnag yw'r diweddaraf) oni bai bod telerau talu eraill wedi'u cytuno gyda'r corff yn y GIG.

| | **2005** | **2005** | **2004** |
|---|---:|---:|---:|
| **GIG** | **Nifer** | **£000** | **£000** |
| Cyfanswm biliau a dalwyd 2004/05 | 827 | 197,481 | 178,938 |
| Cyfanswm biliau a dalwyd o fewn y targed | 823 | 197,464 | 178,456 |
| Canran y biliau a dalwyd o fewn y targed | 99.5% | 100.0% | 99.7% |

| **CYFANSWM** | **2005** | **2005** | **2004** |
|---|---:|---:|---:|
| | **Nifer** | **£000** | **£000** |
| Cyfanswm biliau a dalwyd 2004/05 | 3,207 | 209,281 | 185,046 |
| Cyfanswm biliau a dalwyd o fewn y targed | 3,201 | 209,255 | 184,558 |
| Canran y biliau a dalwyd o fewn y targed | 99.8% | 100.0% | 99.7% |

### 4.13 Deddf Taliad Dyledion Masnachol Hwyr (Llog) 1998

| | **2005**<br>**£** | **2004**<br>**£** |
|---|---:|---:|
| Symiau a gynhwysir o fewn Llog taladwy yn deillio o hawliadau a wnaed gan fusnesau bach o dan y ddeddfwriaeth hon (gweler nodyn 4.4) | 0 | 0 |

### 5.1 Dyledwyr

| | 2005 | Ailddatganwyd 2004 |
|---|---|---|
| **Symiau'n ddyledus o fewn blwyddyn:** | **£000** | **£000** |
| Cynulliad Cenedlaethol Cymru | 6,025 | 53 |
| Byrddau Iechyd Lleol | 183 | 287 |
| Ymddiriedolaethau'r GIG | 1,287 | 651 |
| Dyledwyr eraill | 483 | 227 |
| Blaendaliadau ac incwm a grynhowyd | 489 | 51 |
| **Cyfanswm** | 8,467 | 1,269 |

## 5.2 Credydwyr: Symiau'n daladwy o fewn blwyddyn

| | 2005 | Ailddatganwyd 2004 |
|---|---|---|
| | **£000** | **£000** |
| Benthyciadau'r Cynulliad | 1,577 | 0 |
| Comisiwn Iechyd Cymru | 150 | 0 |
| Byrddau Iechyd Lleol | 377 | 489 |
| Ymddiriedolaethau'r GIG | 1,821 | 2,542 |
| Credydwyr y tu allan i'r GIG | 21,168 | 12,844 |
| Arbedion GPFH | 17 | 70 |
| Crynoadau | 9 | 0 |
| Incwm a Ohiriwyd | 258 | 1,251 |
| **Cyfanswm** | 25,377 | 17,196 |

## 5.3 Credydwyr: Symiau'n daladwy ar ôl blwyddyn

| | 2005 | 2004 |
|---|---|---|
| | **£000** | **£000** |
| Benthyciadau'r Cynulliad | 0 | 1,577 |
| **Cyfanswm** | 0 | 1,577 |

## 5.4 Darpariaethau ar gyfer dyledion a chodiannau

| | Ar 1 Ebrill 2004 | Achosion setlo strwythuredig a drosglwyddwyd i WRP | Trosglwydd o darpariaethau i Gredydwyr | Yn codi yn ystod y flwyddyn | Troi' nôl a heb eu defnyddio | Defnyddiwyd yn ystod y flwyddyn | Dadweindio disgownt | Ar 31 Mawrth 2005 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Arall | 300 | | | 662 | (87) | 0 | | 875 |
| **Cyfanswm** | 300 | 0 | 0 | 662 | (87) | 0 | 0 | 875 |

Mae'r ddarpariaeth "arall" yn ymwneud a hawliadau'r Ombwdsmon Gofal Parhaol a dderbyniwyd gan y BILI oddi ar 1 Ebrill 2003.

| **Amserau disgwyliedig y llifeiriannau arian:** | **O fewn blwyddyn** | **Rhwng 2 a 5 mlynedd** | **Ar ôl 5 mlynedd** | **Cyfan swm** |
|---|---|---|---|---|
| | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** |
| Arall | 300 | 575 | 0 | 875 |
| Cyfanswm | 300 | 575 | 0 | 875 |

## 5.5 Cronfa Gyffredinol

### Y symudiad o fewn y Gronfa Gyffredinol dros y flwyddyn oedd:

| | **£000** |
|---|---|
| **Ar 1 Ebrill 2004** | (2,509) |
| Addasiad cyfnod blaenorol (Nodyn 8) | (15,295) |
| Ar 1 Ebrill 2004 fel a ailddatganwyd | (17,804) |
| Costau gweithredol Net am y flwyddyn ariannol | (282,694) |
| Cronfa Net y Cynulliad (gan gynnwys cyfalaf) | 283,497 |
| Llog ar godiant Cyfalaf | (623) |
| Trosglwyddiadau i gyrff y GIG | 0 |
| Trosglwyddo elfennau a sicrhawyd o'r gronfa gadw ail-werthuso i'r gronfa gyffredinol | 0 |
| **Gweddill ar 31 Mawrth 2005** | (17,624) |

## 6.1 Atebolrwydd Amodol

Yn Chwefror 2003, daeth adroddiad gan yr Ombwdsman ar ariannu'r GIG ar gyfer gofal tymor hir i'r casgliad fod cyfarwyddyd yr Adran Iechyd a pholisïau gofal iechyd o'r herwydd a meini prawf cymhwysedd ynghylch pwy a ddylai gael cefnogaeth ariannol ar gyfer gofal iechyd di-baid wedi'u camddehongli gan Ymddiriedolaethau Gofal Iechyd yng Nghymru a Lloegr.

Pwysig yw nodi fod BILlau yn gyfrifol yn unig am unrhyw achosion Ombwdsman sy'n ymwneud â'r cyfnod ar ôl 1 Ebrill 2003. Fe fydd unrhyw hawliadau sy'n ymwneud â'r cyfnod cyn 1 Ebrill 2003 yn cael eu cynnwys mewn man arall yn economi iechyd Cymru (yn unol â gofynion y Cynulliad Cenedlaethol).

Mae'r BILI wedi derbyn nifer o hawliadau sy'n ymwneud ag achosion a gododd ar ôl 1 Ebrill 2003 ac mae darpariaeth o £0.875m wedi'i chynnwys o fewn y Datganiad Costau Gweithredol

(nodyn 5.4) yn eu cylch. Ar hyn o bryd nid yw'n bosibl gwneud asesiad manwl gywir o atebolrwydd potensial ychwanegol a allai godi ynghylch hawliadau a dderbynnir yn y dyfodol sy'n ymwneud â'r cyfnod ar ôl 1 Ebrill 2003.

## 6.2 Balansau Mewn-Lywodraethol

| | Dyledwyr: Symiau'n daladwy o fewn blwyddyn £000 | Credydwyr: Symiau'n daladwy o fewn blwyddyn £000 | Credydwyr: Symiau'n daladwy ar ôl blwyddyn £000 |
|---|---|---|---|
| Balansau gyda chyrff llywodraeth ganol eraill | 6,025 | 1,727 | 0 |
| Balansau gydag awdurdodau lleol | 275 | 96 | 0 |
| Balansau gydag Ymddiriedolaethau GIG ac Ymddiriedolaethau Sylfaen | 1,287 | 1,821 | 0 |
| Balansau gyda Byrddau Iechyd Lleol | 183 | 377 | 0 |
| Balansau gyda chorfforaethau cyhoeddus a chronfeydd masnachu | 0 | 0 | 0 |
| Balansau gyda chyrff y tu allan i lywodraeth | 697 | 21,356 | 0 |
| **Cyfanswm ar 31 Mawrth 2005** | 8,467 | 25,377 | 0 |

## 6.3 Trafodion Parti Cysylltiol

| | £000 |
|---|---|
| Cyfanswm gwerth trafodion ag aelodau'r Bwrdd a staff allweddol uwch yn 2004/05 | 0 |

Corff corfforaethol yw Bwrdd Iechyd Lleol Rhondda Cynon Taf a sefydlwyd drwy orchymyn y Cynulliad Cenedlaethol.

Ystyrir fod y Cynulliad yn barti cysylltiol. Yn ystod y flwyddyn mae Bwrdd Iechyd Lleol Rhondda Cynon Taf wedi cael nifer arwyddocaol o drafodion sylweddol gyda'r Cynulliad a chydag endidau eraill yr ystyrir fod y Cynulliad yn rhiant-gorff,sef:

Bwrdd Iechyd Lleol Merthyr Tudful;
Bwrdd Iechyd Lleol Caerdydd;
Bwrdd Iechyd Lleol Bro Morgannwg;
Bwrdd Iechyd Lleol Powys a'r Pwll Mentrau Cymreig.

Dangosir darparwyr y GIG y mae'r Bwrdd Iechyd Lleol wedi cael trafodion sylweddol â nhw yn nodau 4.2 a 4.3 yn y cyfrifon hyn.
Yn ogystal, mae'r Bwrdd Iechyd Lleol yn cynnal nifer o drafodion sylweddol gydag Adrannau Llywodraethol eraill a chyrff eraill Llywodraeth ganol a lleol. Mae'r rhan fwyaf o'r trafodion hyn wedi bod gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf.

Mae gan nifer o aelodau'r BILI ddiddordebau mewn partïon cysylltiol fel a ganlyn:

| **Enw** | **Manylion** | **Diddordebau** |
|---|---|---|
| Dr C D V Jones | Cadeirydd BILI | Meddygaeth – Heol Duffryn |
| Dr Robert Baron | Cynrychiolydd Meddygon Teulu | Meddygaeth – Meddygfa St Andrews |
| Dr K I Burkhardt | Cynrychiolydd Meddygon Teulu | Meddygaeth – Meddygfa Parc Canol |
| Dr H V Shah | Cynrychiolydd Meddygon Teulu | Meddygaeth – Heol Tyntyla |
| Ms Antonia Forte | Cynrychiolydd Sector Gwirfodddol | Cymdeithas Tai Pontypridd a'r Ardal |
| Ms Anne Higgins | Cynrychiolydd Sector Gwirfodddol | Gofal Henoed |
| Mr Alan Griffiths | Cynrychiolydd Deintyddol | Swyddfa Ddeintyddol – Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro |
| Mr Selwyn Jones | Cynrychiolydd Optometrydd | Swyddfa Ophthalmig Gwynns |
| Cyngh Jonathan Huish | Cynrychiolydd Awdurdod Lleol | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf |
| Cyngh Pauline Jarman | Cynrychiolydd Awdurdod Lleol | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf |
| Cyngh Rebecca Winter | Cynrychiolydd Awdurdod Lleol | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf |
| Mr John Wrangham | Cynrychiolydd Awdurdod Lleol | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf |
| Ms Lynette Ward | Cynrychiolydd Therapydd | Ymddiriedolaeth GIG Pontypridd a Rhondda |
| Dr S Sullivan | Aelod Cysylltiol | Ymddiriedolaeth GIG Pontypridd a Rhondda |
| Mr Robert Williams | Aelod Cysylltiol | Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Morgannwg |
| Mr Wynne Vaughan | Cynrychiolydd Awdurdod Lleol | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf |
| Cyngh John David | Cynrychiolydd Awdurdod Lleol | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf |
| Ms Jacqueline Murphy | Cynrychiolydd Lleyg Cymunedol | Tros Gynnal - gwasanaethau eiriolaeth |
| Mr Clive Barnby | Aelod Cysylltiol | Aelod – Glas Cymru – Cyngor Iechyd Cymunedol Pontypridd & Rhondda |

### 6.4 Colledion a thaliadau neilltuol

| | **Nifer o achosion** | **Gwerth yr achosion £** |
|---|---|---|
| Niwed Personol | 0 | 0 |
| Achosion twyll | 0 | 0 |
| Pob colled arall a thaliadau neilltuol | 1 | 260,252 |
| **Cyfanswm colledion a thaliadau neilltuol** | **1** | **260,252** |

Dadansoddiad o achosion a gostiodd dros £100,000 a'r holl achosion eraill

| | Symiau a dalwyd yn y flwyddyn £ | Symiau a grynhowyd £ | Cymeradwywyd i'w ddileu yn y flwyddyn £ |
|---|---|---|---|
| Taliadau silindrau Ocsigen | 260,252 | 260,252 | 260,252 |
| **Cyfanswm yr achosion** | 260,252 | 260,252 | 260,252 |

### 6.5 Offerynnau Ariannol

Mae FRS 13, Offerynnau Deilliadol ac Offerynnau Ariannol eraill, yn hawlio datgelu'r swyddogaeth a gafodd offerynnau ariannol yn ystod y cyfnod wrth greu neu newid risgiau y bydd endidau yn eu hwynebu wrth ymgymryd â gweithgareddau. Oherwydd y modd y cyllidir y BILlau yng Nghymru, nid yw'r rheiny mor agored i'r radd o risg ariannol a wynebir gan endidau busnes. Hefyd, bydd offerynnau ariannol yn cymryd swyddogaeth dipyn yn fwy cyfyngedig wrth greu neu newid risg nag a fyddai'n nodweddiadol o'r cwmnïau a restrwyd y mae FRS 13 yn eu trafod yn bennaf. Nid oes gan y BILlau'r hawl i fenthyca na buddsoddi arian ac asedau dros ben ac fe grëir asedau a dyledion ariannol gan weithgareddau o-ddydd-i-ddydd yn hytrach na chael eu dal i newid y risgiau sy'n wynebu'r BILlau wrth ymgymryd â'u gweithgareddau.

**Risg Diddymiad**

Ariannir dyraniadau incwm a gwariant cyfalaf y BILl o adnoddau a bleidleisir yn flynyddol gan y Senedd. Gan hynny, ni cheir risg diddymiad o bwys.

**Risg Cyfradd Llog**

Mae holl asedau a dyledion ariannol y BILl yn dwyn cyfraddau llog o ddim neu gyfraddau sefydlog. Gan hynny ni cheir risg cyfradd llog.

**Risg Arian Tramor**

Prin y mae gan y BILl incwm neu wariant sy'n ymwneud ag arian tramor. Gan hynny ni cheir risg sylweddol oherwydd arian tramor.

## 7. Tîm Comisiynu'r Ail Gynnig

Yn ystod 2004/05 rhoddodd BILl Rhondda Cynon Taf nawdd i Dîm Comisiynu'r Ail Gynnig (S.O.C.T.). Derbyniodd BILl Rhondda Cynon Taf arian oddi wrth y Cynulliad i gwrdd â chostau rhedeg y Tîm a hefyd y costau'n ymwneud â gofal iechyd ar gyfer cleifion o dan Gynllun yr Ail Gynnig.

Cyfanswm y costau'n ymwneud â gofal iechyd ar gyfer 2004/05 oedd £6.892m. Cynhwysir y gwariant hwn o fewn Nodyn 4.2 Gofal Iechyd Eilaidd a Gofal Iechyd Cymunedol. Rhoddir dadansoddiad o'r gwariant hwn gan y Byrddau Iechyd Lleol isod:

| **BWRDD IECHYD LLEOL** | **Cost £000** |
|---|---|
| Ynys Môn | 5 |
| Blaenau Gwent | 117 |
| Pen-y-bont | 72 |
| Caerffili | 723 |
| Caerdydd | 1,953 |
| Sir Gaerfyrddin | 247 |
| Ceredigion | 73 |
| Conwy | 19 |
| Sir Ddinbych | 59 |
| Sir y Fflint | 315 |
| Gwynedd | 17 |
| Merthyr Tudful | 37 |
| Sir Fynwy | 209 |
| Nedd Port Talbot | 90 |
| Casnewydd | 407 |
| Sir Benfro | 50 |
| Powys | 63 |
| Rhondda Cynon Taf | 428 |
| Abertawe | 417 |
| Torfaen | 223 |
| Bro Morgannwg | 735 |
| Wrecsam | 610 |
| Ymddiriedolaethau Gofal Cychwynnol Seisnig | 23 |
| **Cyfanswm fel yn ôl Nodyn 4.2** | 6,892 |

## 8. Addasiad y Flwyddyn Flaenorol

Ers eu dechrau ar Ebrill 1, 2003, mae Byrddau Iechyd Lleol wedi dod o fewn ffiniau cyfrifo adnoddau'r Cynulliad a dylai eu cyfrifon blynyddol cydymffurfio â Llawlyfr Cyfrifo Adnoddau Trysorlys ei Mawrhydi.
Ni chaiff yr arian a ddaw o'r cynulliad ei ystyried yn 'incwm' ond fel 'nawdd' o dan reolau cyfrifo adnoddau, ac felly ni ddylai unrhyw ddyledwyr na chredydwyr sydd mewn perthynas â nawdd y Cynulliad fodoli ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Yn 2003/04 ni osodwyd yr agwedd yma o gyfrifo i gyfrifon y BILI ar gyfer trafodion ariannol a wnaed yn 2003/04 na chwaith mewn perthynas â'r mantolau a etifeddwyd o'r Awdurdodau Iechyd blaenorol. Felly, cynhwyswyd y mantolau yng nghyfrifon 2003/04 ar gam.
Roedd angen Addasiad Cyfnod Blaenorol (PPA) felly yn 2004/05 er mwyn ysgrifennu'r balansau yma allan ac i adlewyrchu cyflwyniad llawn cyfrifo adnoddau. Mae'r symudiad net o ganlyniad mewn balansau dyledwyr/credydwyr wedi cael ei gymryd i'r Gronfa Gyffredinol yn y cyfnod blaenorol.

Mae manylion yr Addasiad Cyfnod Blaenorol wedi eu gosod isod:

| | £000 |
|---|---|
| Lleihad mewn dyledwyr | 15,537 |
| Lleihad mewn credydwyr | 243 |
| Lleihad yn y Gronfa Gyffredinol | 15,294 |

Effaith yr Addasiad Cyfnod Blaenorol yma ar ganlyniadau cyfrifon 2003/04 yw lleihau'r Gronfa Gyffredinol a lleihau asedau net gan £15.294m.

## DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU'R PRIF WEITHREDWR FEL SWYDDOG ATEBOL Y BWRDD IECHYD LLEOL

Mae'r Cynulliad Cenedlaethol wedi rhoi cyfarwyddyd mai'r Prif Weithredwr a ddylai fod yn Swyddog Atebol i'r BILl. Gosodir cyfrifoldebau perthnasol Swyddogion Atebol, gan gynnwys eu cyfrifoldeb am briodoldeb a chysondeb y cyllidoedd cyhoeddus y maen nhw'n atebol yn eu cylch, ac am gadw cofnodion priodol, ym Memorandwm y Swyddog Atebol a ddyroddwyd gan y Cynulliad.

Hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred, rydw i wedi cyflawni'r cyfrifoldebau a nodwyd yn fy llythyr penodiad fel Swyddog Atebol.

Dyddiad……………………………..….2005 …………………………………….. Prif Weithredwr

## DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU'R CYFARWYDDWYR PARTHED Y CYFRIFON

Mae'n ofynnol i'r cyfarwyddwyr baratoi cyfrifon o dan Ddeddf Y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977 ar gyfer pob blwyddyn ariannol. Mae'r Cynulliad Cenedlaethol, gyda chymeradwyaeth y Trysorlys, yn rhoi cyfarwyddyd fod y cyfrifon hyn yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa'r BILI ac o incwm a gwariant y BILI dros y cyfnod hwnnw. Wrth baratoi'r cyfrifon hynny, mae'n ofynnol bod y cyfarwyddwyr:

- yn cymhwyso polisïau cyfrifydda a osodwyd gan y Cynulliad gyda chymeradwyaeth y Trysorlys, mewn modd cyson

- yn gwneud penderfyniadau ac amcangyfrifon sy'n gyfrifol a doeth

- yn datgan a ddilynwyd safonau cyfrifydda perthynol, yn ddibynnol ar unrhyw newid sylweddol a ddatgelwyd ac a esboniwyd yn y cyfrif.

Mae'r cyfarwyddwyr yn cadarnhau eu bod wedi cydymffurfio â'r gofynion uchod wrth baratoi'r cyfrifon.

Mae'r cyfarwyddwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifydda priodol sy'n dangos â manwl gywirdeb rhesymol ar unrhyw adeg sefyllfa ariannol yr awdurdod ac yn eu galluogi i sicrhau fod y cyfrifon yn cydymffurfio â'r gofynion a amlinellwyd yn y cyfeiriad a nodwyd uchod gan y Cynulliad.

**Drwy Orchymyn y Bwrdd**

**Llofnod:**

Cadeirydd: ………………………………………….. Dyddiwyd: …………………….…………2005

Prif Weithredwr: …………………………………… Dyddiwyd: …………………………2005

Cyfarwyddwr Cyllid: ………………………………. Dyddiwyd: …………………………2005

## Datganiad ar Reolaeth Fewnol

1. Cwmpas cyfrifoldeb

Y Bwrdd sydd yn atebol dros reolaeth fewnol. Fel Swyddog Atebol a Phrif Weithredwr ar gyfer y Bwrdd hwn, gen i mae'r cyfrifoldeb dros gadw system ddiogel o reolaeth fewnol sydd yn cefnogi'r hyn mae'r sefydliad yn ei gyflawni yn nhermau polisïau, nodau ac amcanion, wrth ddiogelu arian cyhoeddus ac asedau'r sefydliad yma yr wyf innau'n bersonol gyfrifol drostyn nhw, yn unol â'r cyfrifoldebau a drosglwyddwyd gan Swyddog Cyfrifo GIG Cymru.

2. Pwrpas y system o reolaeth fewnol

Mae'r system o reolaeth fewnol wedi ei gynllunio i reoli risg i lefel resymol yn hytrach na dileu pob risg o fethu â chyflawni polisiau, nodau ac amcanion; gall felly gynnig sicrwydd rhesymol ac nid un llwyr o effeithiolrwydd. Seiliwyd y system o reolaeth fewnol ar broses barhaus a gynlluniwyd i adnabod a blaenoriaethu risg i gyflawniad polisiau, nodau ac amcanion y sefydliad, i werthuso tebygrwydd gweld y risgiau hynny'n cael eu gwireddu a'r effaith y cânt pe bai nhw'n cael eu gwireddu, ac i'w rheoli'n effeithlon, effeithiol ac mewn modd economaidd.

Rhoddwyd y system o reolaeth fewnol ar waith yn y sefydliad ar gyfer y flwyddyn a orffennodd ar Fawrth 31, 2005 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad blynyddol a'r cyfrifon, ac mae'n cydymffurio â chanllawiau Llywodraeth Cynulliad Cymru.

3. Y gallu i drin risg

Mae gan holl bersonél y BILl beth gyfrifoldeb dros reoli risg a rheolaeth fewnol er mwyn cyflawni eu hamcanion unigol a nodau ac amcanion cyffredinol y BILl. Er mwyn bod yn effeithiol, mae'r BILl yn parhau i weithio er mwyn integreiddio rheoli risg i reolaeth a chynllunio bob dydd gweithgareddau'r BILl.

Mae gan y BILl grŵp gweithredol ar lywodraethu clinigol a grŵp risg anghlinigol sefydledig er mwyn adnabod risgiau ac i reoli'r broses asesu risg. Mae'r ddau grŵp yn adrodd yn ôl i'r Bwrdd drwy'r Pwyllgor Rheolaeth Glinigol a'r Pwyllgor Awdit yn ôl eu trefn.

Trefnwyd sesiynau ymwybyddiaeth rheoli risg yn ystod y flwyddyn er mwyn i'r holl staff ddod yn gyfarwydd ag egwyddorion rheoli risg a Strategaeth Rheoli Risg y BILl.

4. Y Fframwaith risg a rheoli

Mae'r BILl wedi mabwysiadu Strategaeth Rheoli Risg yn ffurfiol ac wedi datblygu "Cofrestr Risg Corfforaethol" yn sail ar gyfer rheoli a monitro gweithgareddau rheoli risg y sefydliad. Caiff hwn ei ddiweddaru'n ffurfiol a'i gyflwyno i'r Bwrdd ar sail flynyddol. Bydd y Bwrdd a'r Pwyllgor Awdit yn adolygu effeithiolrwydd y prosesau rheoli risg a rheolau mewnol drwy gydol y flwyddyn ariannol ac yn cymeradwyo'r proffil blaen risg, cynlluniau gweithredu a rhaglen awdit mewnol.

Roedd perfformiad y BILl yn erbyn Safonau Rheoli Risg Cymru fel a ganlyn:

Safonau Craidd

| | | | 2004/05 Sgôr | 2004/05 Nod | 2003/04 Sgôr |
|---|---|---|---|---|---|
| Safon A * | Rheoli Risg & Strategaeth | Craidd | 75% | 75% | 39% |
| Safon B * | Asesu Risg & Triniaeth | Craidd | 79% | 75% | 53% |
| Safon C * | Adrodd Digwyddiadau Croes a Pheryglon | Craidd | 85% | 75% | 53% |
| Safon E | Rheolaeth | Craidd | 76% | 75% | 60% |
| Safon F | Rheolaeth Ariannol | Craidd | 91% | 75% | 69% |

*Aseswyd gan Bwll Risg Cymru

Safonau Di-graidd

| | | | 2004/05 Sgôr | 2004/05 Nod | 2003/04 Sgôr |
|---|---|---|---|---|---|
| Safon D | Polisiau a Gweithdrefniadau | Di-Graidd | 66% | 75% | 50% |
| Safon G * | Galluogi Cyflenwi Gofal Cychwynnol yn ddiogel | Di-Graidd | 73% | 50% | D/a |
| Safon I | Rheoli Cofnodion | Di-Graidd | 54% | 50% | D/a |

*Aseswyd gan Bwll Risg Cymru

Yn ystod y flwyddyn cafwyd asesiad allanol o'r BILl gan Bwll Risg Cymru (WRP). Cyflawnodd y BILl lefel lleiafswm cydymffurfiaeth cyffredinol o 70% a dim llai na 75% yn y safonau craidd a aseswyd gan Bwll Risg Cymru.

Mae gan y BILl gynlluniau gwaith cytunedig ar waith er mwyn gwella sgôr holl Safonau Rheoli Risg Cymru. Mae rheolwyr y BILl yn ymwybodol o'r gwaith sydd ei angen er mwyn gwella sgorion cydymffurfiaeth ac fe gaiff diweddariadau rheolaidd eu hadrodd yn ôl i'r Pwyllgor Awdit drwy gyfrwng y grŵp risg anghlinigol.

Rhoddwyd fframwaith reolaeth gadarn mewn lle yn ystod y flwyddyn, sydd yn cynnwys:

- mabwysiadu Rheolau Sefydlog a Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog gan y Bwrdd;
- pwyllgor Awdit, Pwyllgor Cydnabyddiaeth a sawl is-grŵp;
- penodiad archwilwyr mewnol; a
- chynllun ariannol wedi ei gymeradwyo ac adrodd rheolaidd ar wybodaeth ariannol a pherfformiad.

Mae system o reoli cyllid mewn lle, sydd yn amddiffyn caffaeliad, defnydd, gwarediad a diogelwch nwyddau a gwasanaethau. Ceir rheolaethau ar waith sydd yn ymwneud â diogelwch systemau ariannol a data. Mae'r systemau yma'n cynhyrchu gwybodaeth ariannol ddibynadwy sydd yn hysbysu deiliaid y cyllid a'r adrodd ariannol i'r Bwrdd.

Adolygwyd systemau ariannol y BILl gan Awdit Mewnol. Mae'r Pwyllgor Awdit yn adolygu holl adroddiadau awdit mewnol ac yn monitro gweithrediad gwelliannau rheoledig cytunedig.

Mae'r Awdit mewnol wedi cadarnhau, yn seiliedig ar y gwaith a ymgymerwyd yn ystod y flwyddyn, fod y Prosesau Rheoli Risg a'r Prosesau Rheoli a Rheolaeth o fewn y meysydd a orchuddir gan eu hadolygiadau yn ddigonol ac yn effeithiol ddigon i alluogi'r Bwrdd a'r Swyddog Atebol i ddibynnu ar y system rheoli mewnol.

5. Adolygiad effeithiolrwydd

Fel Swyddog Atebol, mae dyletswydd arna i i adolygu effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol. Bydd gwaith yr archwilwyr mewnol a'r swyddogion gweithredol o fewn y sefydliad sydd a chanddynt gyfrifoldebau dros ddatblygu a chynnal y fframwaith rheolaeth fewnol, yn ogystal â sylwadau a wneir gan yr archwilwyr allanol yn eu llythyr rheolaeth ac adroddiadau eraill yn diweddaru fy adolygiad o effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol.

Rwyf wedi cael fy nghynghori ar unrhyw oblygiadau fydd yn deillio o ganlyniad i fy adolygiad o effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol gan y Bwrdd a'r Pwyllgor Awdit ac mae cynllun sydd yn cyfeirio at unrhyw wendidau ac sydd yn sicrhau gwelliant parhaol wedi ei osod mewn lle.

Dyddiad……………………….2005 ……………………….……………………. Prif Weithredwr
(Ar ran y Bwrdd)

## Bwrdd Iechyd Lleol Rhondda Cynon Taf

## Tystysgrif ac Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Ardystiaf fy mod wedi archwilio'r datganiadau ariannol ar dudalennau 1 i 30 o dan Adran 61 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn o dan y confensiwn cost hanesyddol fel y'u haddaswyd gan y broses o ailbrisio rhai asedau sefydlog a'r polisïau cyfrifyddu fel y nodir ar dudalennau 6 i 10.

### Priod gyfrifoldebau Cyfarwyddwyr, y Prif Weithredwr a'r Archwiliwr

Fel y disgrifiwyd ar dudalennau 26 a 27 mae'r Cyfarwyddwyr a'r Prif Weithredwr yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol yn unol ag Adran 98(2) Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977 a chyfarwyddiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru a wneir o dan y Ddeddf honno, ac am sicrhau rheoleidd-dra'r trafodion ariannol. Mae'r Cyfarwyddwyr a'r Prif Weithredwr hefyd yn gyfrifol am baratoi Rhagair/cynnwys arall yr Adroddiad Blynyddol. Sefydlwyd fy nghyfrifoldebau i, fel archwilydd annibynnol, drwy statud a rhoddaf ystyriaeth i'r safonau a'r arweiniad a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Arferion Archwilio ac arweiniad moesegol y proffesiwn archwilio.

Adroddaf fy marn ynghylch p'un a yw'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg ac a ydynt wedi eu paratoi yn unol â Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977 a chyfarwyddiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru a wneir o dan y Ddeddf honno, ac a yw'r gwariant a'r incwm, ym mhob ystyr sylweddol, wedi ei gymhwyso i'r dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac a yw'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli. Adroddaf hefyd, os nad yw'r Rhagair, yn fy marn i, yn gyson â'r datganiadau ariannol, os nad yw'r Bwrdd wedi cadw cofnodion cyfrifyddu cywir, neu os nad wyf wedi cael yr holl wybodaeth a'r esboniadau sy'n ofynnol ar gyfer fy archwiliad.

Darllenaf y wybodaeth arall a gynhwysir yn yr Adroddiad Blynyddol ac ystyriaf p'un a yw'n gyson â'r datganiadau ariannol archwiliedig. Ystyriaf y goblygiadau ar gyfer fy nhystysgrif os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau ymddangosiadol neu anghysonderau sylweddol â'r datganiadau ariannol.

Adolygaf a yw'r datganiad ar dudalennau 28 i 30 yn adlewyrchu cydymffurfiad y Bwrdd ag arweiniad y Trysorlys a'r Cynulliad ar y Datganiad Rheolaeth Fewnol. Adroddaf os nad yw'n bodloni'r gofynion a bennir gan y Trysorlys a'r Cynulliad, neu os yw'r datganiad yn gamarweiniol neu'n anghyson â gwybodaeth arall yr wyf yn ymwybodol ohoni o'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol. Nid yw'n ofynnol i mi ystyried, ac nid wyf wedi ystyried, a yw'r Datganiad Rheolaeth Fewnol yn cwmpasu pob risg a rheolaeth. Nid yw'n ofynnol i mi ychwaith roi barn ar effeithiolrwydd gweithdrefnau llywodraethu corfforaethol y Bwrdd na'i weithdrefnau risg a rheoli.

### Sail y farn archwilio

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â Safonau Archwilio'r Deyrnas Unedig a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Arferion Archwilio. Mae archwiliad yn cynnwys archwilio, ar sail prawf, y dystiolaeth sy'n berthnasol i'r symiau, y datgeliadau a rheoleidd-dra'r trafodion ariannol yn y datganiadau ariannol. Mae hefyd yn cynnwys asesiad o'r amcangyfrifon a'r dyfarniadau o bwys a wneir gan

y Cyfarwyddwyr a'r Prif Weithredwr wrth baratoi'r datganiadau ariannol, ac a yw'r polisïau cyfrifyddu yn briodol i amgylchiadau'r Bwrdd, wedi eu cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n briodol.

Cynlluniais a chyflawnais fy archwiliad er mwyn cael yr holl wybodaeth a'r esboniadau a oedd, yn fy marn i, yn angenrheidiol i roi tystiolaeth ddigonol i mi roi sicrwydd rhesymol bod y datganiadau ariannol yn rhydd o gamddatganiad perthnasol, boed hynny wedi'i achosi gan gamgymeriad neu drwy dwyll neu ryw afreoleidd-dra neu gamgymeriad arall a bod y gwariant a'r incwm, ym mhob ystyr berthnasol, wedi eu cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli. Wrth lunio fy marn rwyf hefyd wedi gwerthuso digonolrwydd cyffredinol y modd y cyflwynir y wybodaeth yn y datganiadau ariannol.

**Barn**

Yn fy marn i:

- mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg o faterion Bwrdd Iechyd Lleol Rhondda Cynon Taf ar 31 Mawrth 2005 a'r costau gweithredu net, enillion a cholledion cydnabyddedig a'r llifau arian parod am y flwyddyn a ddaeth i ben, ac fe'u paratowyd yn unol â Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977 a'r cyfarwyddiadau a wnaed yn unol â'r Ddeddf honno gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru;

- ym mhob ystyr sylweddol, mae'r gwariant a'r incwm wedi ei gymhwyso i'r dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac mae'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

Jeremy Colman
Archwilydd Cyffredinol Cymru

4ydd Awst 2005

Swyddfa Archwilio Cymru
2-4 Park Grove
Caerdydd CF10 3PA

**CYFRIFON – 2004-2005**

## TREFNLEN 1

## CYMHWYSIAD O OFYNION CYFRIFYDDA A DATGELU DEDDF Y CWMNÏAU A SAFONAU CYFRIFYDDA

### Deddf y Cwmnïau

1. Ni fydd yr eithriadau o ran datgelu a ganiateir gan Ddeddf y Cwmnïau yn weithredol i'r GIG oni bai i hynny gael ei gymeradwyo'n benodol gan y Trysorlys.

2. Mae Deddf y Cwmnïau'n mynnu fod gwybodaeth neilltuol yn cael ei datgelu yn Adroddiad y Cyfarwyddwyr. I'r graddau y bydd yn briodol, fe fydd yr wybodaeth yn ymwneud â chyrff y GIG yn cael ei chynnwys yn y rhagair.

3. Rhaid i ddatganiad costau gweithredu, y fantolen a'r datganiad o lif arian ddilyn y fformat a ragnodwyd yn Llawlyfr Cyfrifydda Adnodd.

4. Ni ddisgwylir i gyrff y GIG gynnig yr wybodaeth am gost hanesyddol a ddisgrifir ym mharagraff (33) o Drefnlen 4 yn Neddf y Cwmnïau.

### Safonau Cyfrifydda

5. Ni ddisgwylir i gyrff y GIG gynnwys nodyn yn dangos elw a cholledion cost hanesyddol fel a ddisgrifir yn FRS 3.

## TREFNLEN 2

## GOFYNION YCHWANEGOL

1. Bydd y rhagair yn cynnwys datganiad fod y cyfrif wedi'i baratoi i gydymffurfio â Chyfeiriad a roddwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol ag adran 98(2) o Ddeddf y GIG 1977.

2. Bydd y rhagair hefyd yn cynnwys disgrifiad o gefndir statudol a phrif swyddogaethau'r BILl ynghyd ag adolygiad teg o'i weithgareddau gweithredol ac ariannol a chrynodeb o'i berfformiad yn erbyn targedau.

**CYFRIFON – 2004-2005**

CYFARWYDDYD CYFRIFON Y GWASANAETH IECHYD YNG NGHYMRU A RODDIR GAN GYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU YN UNOL AG ADRAN 98(2) O DDEDDF GWASANAETH IECHYD CENEDLAETHOL 1977 A CHYDA CYMERADWYAETH Y TRYSORLYS

BYRDDAU IECHYD LLEOL

1. Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cyfarwyddo dylid paratoi cyfrif ar gyfer diwedd y flwyddyn ariannol a orffennodd ar Fawrth 31, 2005 a blynyddoedd ariannol dilynol eraill mewn perthynas â'r Bwrdd Iechyd Lleol (BILl). Caiff y sail ar gyfer paratoi ffurf a chynnwys ei amlinellu yn y paragraffau dilynol a threfnlenni dilynol.

SAIL PARATOAD

2. Bydd cyfrif y BIl yn cydymffurfio:

   (a) Gydag ymarfer cyfrifo a dderbynnir yn gyffredinol yn y Deyrnas Unedig (UK GAAP);

   (b) Gyda gofynion cyfrifo a datgeliad Deddf y Cwmnïau;

   (c) Gyda holl safonau perthnasol a ddyroddir neu mabwysiadir gan y Bwrdd Safonau Cyfrifo, hyd eu bod yn briodol i'r GIG ac mewn grym ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratoir y cyfrifon cyfatebol;

   (d) Gyda chyfarwyddyd cyfrifo a gymeradwyir gan yr FRAB ac sydd wedi ei gynnwys yn y Llawlyfr Cyfrifo Adnoddau, fel y manylir yn y Llawlyfr BILl ar gyfer Cyfrifon, ond sydd yn eithrio Trefnlenni 1 a 5 yn benodol;

   (e) Gyda'r confensiwn cost hanesyddol a addaswyd gan gynhwysiad asedau sefydlog i'w gwerth i'r busnes gan gyfeirio at gostau cyfredol; a stoc ar ben isaf y gost amnewid gyfredol net (neu gost hanesyddol os nad yw hwn yn sylweddol wahanol) a gwerth sylweddoladwy net.

FFURF A CHYNNWYS

3. Bydd cyfrif y BILl ar gyfer y flwyddyn a orffennodd ar Fawrth 31, 2005 a'r blynyddoedd dilynnol eraill yn cynnwys datganiad cost gweithredol, mantolen, datganiad o lif arian a datganiad o enillion a cholledion cyhyd a bod gofyn am y rhain gan yr FRAB, gan gynnwys y nodiadau sydd yn angenrheidiol er mwyn sicrhau dealltwriaeth iawn o'r cyfrifon.

4. Bydd cyfrif y BILl ar gyfer y flwyddyn yn gorffen ar Fawrth 31, 2005 a'r blynyddoedd dilynnol yn rhoi golwg gwir a theg o'r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn ariannol a'r costau gweithredu, enillion a cholledion a adnabuwyd a'r llif arian yn ystod y flwyddyn.

5. Caiff y fantolen ei arwyddo gan brif weithredwr a chyfarwyddwr cyllid y BILl a''i ddyddio.

AMRYWIOL

6. Fe atgynhyrchir y cyfeiriad fel atodiad i'r cyfrifon cyhoeddedig.

7. Bydd y nodiadau i'r cyfrifon, inter alia, yn cynnwys manylion o'r polisïau cyfrifydda a fabwysiadwyd.

8. Fe wneir nodiadau'n rhoi esboniadau pellach o ffigurau yn y cyfrifon lle ystyrir fod hynny'n briodol ar gyfer dealltwriaeth gyflawn o'r cyfrifon.

Llofnodwyd drwy awdurdod Cenedlaethol Cynulliad Cymru

Llofnodwyd: Christine Daws Dyddiwyd: